# Tai Pobl Hŷn

## TAI LLOCHES

Mae'r Cyngor yn rheoli 34 o gynlluniau tai lloches – gan gynnwys un cynllun gofal ychwanegol – ar hyd a lled y fwrdeistref sirol.

## PWY ALL WNEUD CAIS?

- **Tai Lloches**

  Yn gyffredinol, mae tai lloches ar gael i bobl sengl a chyplau 60 oed neu'n hŷn, fel arfer, ac sydd eisiau aros yn annibynnol ond hefyd fanteisio ar gymorth a gwasanaethau ychwanegol y cynlluniau. Gall pobl anabl dan 60 oed hefyd fod yn gymwys, yn amodol ar asesiad pellach.

- **Cynllun Gofal Ychwanegol**

  Mae'r cynllun tai Gofal Ychwanegol ar gael i bobl sengl a chyplau 55 oed neu'n hŷn, fel arfer, oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol. I fod yn gymwys ar gyfer gofal ychwanegol, bydd asesiad yn mesur anghenion meddygol, gofal a chymorth pob unigolyn.

## PA FATH O DAI SYDD GENNYM NI?

- **Tai Lloches**

  Mae tai lloches yn cynnwys grwpiau o unedau (byngalos, fflatiau, a fflatiau un ystafell) heb eu dodrefnu, sy'n cynnwys un neu ddwy ystafell wely, ac sydd wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion pobl hŷn. Mae gan bob cynllun fan cyffredin, lle gall y preswylwyr fanteisio ar y cyfleusterau cyffredin sydd ar gael. Nod tai lloches yw galluogi pobl hŷn i fyw mor annibynnol ag sy'n bosibl, gyda'r sicrwydd ychwanegol o ran cymorth gan staff ymroddedig y tai lloches. Mae tai lloches hefyd yn rhoi cyfle i'r preswylwyr gwrdd â ffrindiau newydd a chymdeithasu drwy fanteisio ar gyfleusterau cyffredin a gweithgareddau.

- **Cynllun Gofal Ychwanegol**

  Mae ein cynllun tai Gofal Ychwanegol yn cynnwys fflatiau hunangynhwysol ar gyfer un person neu ddau berson – ag un ystafell wely, cegin, lolfa, ystafell wely, ac ystafell ymolchi â chawod hygyrch. Mae hefyd gan y cynllun fan cyffredin er pleser y preswylwyr.

## BETH YW MANTEISION Y CYNLLUNIAU TAI LLOCHES?

- **Tai Lloches**

  Mae tai lloches yn darparu lleoliad sy'n galluogi eu preswylwyr i fyw bywydau annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Maen nhw hefyd yn rhoi cyfle iddyn nhw gwrdd â ffrindiau newydd a rhannu bywyd cymdeithasol drwy fanteisio ar y lolfa gyffredin a'r cyfleusterau eraill – a dyma rai ohonyn nhw:

- Lolfeydd wedi'u dodrefnu lle gall preswylwyr gymdeithasu
- Ystafelloedd golchi a sychu dillad
- Ystafelloedd gwely i'r teulu a ffrindiau gael aros
- Systemau mynediad ar y drysau i sicrhau diogelwch
- Cyfleusterau teledu cyffredin
- Clybiau cinio a chyfleoedd mewn canolfannau dydd
- Ymweliadau gan drinwyr gwallt
- Cymorth gan Swyddog Tai Lloches
- Gwasanaeth Monitro Larymau Ymateb (Llinell Gofal) – gwasanaeth 24 awr, 365 diwrnod y flwyddyn

O ran y gwasanaethau ychwanegol – sy'n cael eu darparu ar ben yr hyn sydd, fel arfer, yn rhan o'r taliadau rhent – mae tâl gwasanaeth yn cael ei chodi ar y preswylwyr. Mewn rhai cynlluniau, mae taliadau cyfleustodau hefyd yn cael eu codi ar wahân. Bob blwyddyn, mae preswylwyr yn cael dadansoddiad o'r tâl gwasanaeth sy'n berthnasol i'r cynllun maen nhw'n byw ynddo, ynghyd ag unrhyw daliadau cyfleustodau (nwy, trydan neu ddŵr) sy'n berthnasol. Mae'r taliadau hyn yn cael eu casglu ar yr un pryd â'r taliad rhent, a bydd y manylion i'w gweld ar eich cerdyn rhent.

Mae pob cartref unigol wedi'i gysylltu â'r Gwasanaeth Monitro Larymau Ymateb (Llinell Gofal) sy'n gallu cael ei ddefnyddio ar unrhyw adeg – naill ai i gysylltu â'r Swyddog Tai Lloches pan fydd ar y safle, neu i alw gweithredwyr  Llinell Gofal am gymorth ar unrhyw adeg arall.

Nid oes modd defnyddio na gwefru sgwteri na chadeiriau olwyn trydan. Yn gyffredinol, ni chaniateir y rhain yn ein cynlluniau tai lloches. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr eitemau hyn, mynnwch ragor o gyngor a chymorth gan eich Swyddog Tai Lloches neu swyddfa tai leol.

COFIWCH HEFYD NID YW ANIFEILIAID ANWES YN CAEL EU CANIATÁU MEWN RHAI O'N CYNLLUNIAU TAI LLOCHES, AC EFALLAI HOFFECH CHI WIRIO HYN CYN DERBYN UNRHYW GYNNIG LLETY A SYMUD I MEWN.

- **Cynllun Gofal Ychwanegol**

  Mae cynlluniau tai Gofal Ychwanegol yn darparu llety wedi'i gynllunio'n arbennig ar gyfer hybu annibyniaeth pobl hŷn a darparu amgylchedd byw diogel. Mae hefyd gyfle i gwrdd â ffrindiau newydd ac i rannu bywyd cymdeithasol drwy fanteisio ar y lolfa gyffredin a'r ystafell fwyta - lle mae cinio canol dydd yn cael ei weini bob dydd.

  Mae amrywiaeth o fuddion, cyfleusterau a gweithgareddau cymdeithasol ar gael i breswylwyr cynlluniau tai lloches gofal ychwanegol.

- Lolfa gymunedol ac ystafell fwyta sy'n gweini pryd canol dydd a lle gall preswylwyr gymdeithasu a gwneud gweithgareddau cymdeithasol.
- Ystafell golchi dillad
- Salon harddwch ac iechyd
- Ystafelloedd i'r teulu a ffrindiau gael aros
- Storfa ar gyfer cadeiriau olwyn, ceir batri a sgwteri â chyfleusterau gwefru
- Ystafell ymolchi â chymorth
- Gerddi a maes parcio mawr (sy'n gwbl hygyrch i gadeiriau olwyn)
- Lifft i bob llawr
- Systemau mynediad ar y drysau a theledu cylch cyfyng o amgylch y cynllun i sicrhau diogelwch
- Cymorth gan Swyddog Tai Lloches
- Gwasanaeth Monitro Larymau Ymateb (Llinell Gofal) – gwasanaeth 24 awr, 365 diwrnod y flwyddyn

**SWYDDOGAETHAU'R SWYDDOG TAI LLOCHES**

Pan fydd y Swyddogion Tai Lloches ar ddyletswydd, byddan nhw'n darparu cymorth agos – ond nid goramlwg – ar gyfer y preswylwyr. Dylid nodi mai eu prif swyddogaethau yw darparu cymorth ar faterion tai, bod yn effro i anghenion y preswylwyr, a sicrhau darparu'r gwasanaethau angenrheidiol cyn belled â phosibl.

Dyma grynodeb o swyddogaethau'r Swyddogion Tai Lloches:-

- Monitro lles cyffredinol y preswylwyr.
- Darparu cymorth ar faterion tai.
- Helpu'r preswylwyr i fyw'n annibynnol.
- Darparu cymorth agos – ond nid goramlwg – ar gyfer y preswylwyr.
- Bod yn effro i les y preswylwyr a galw am gymorth yn ôl yr angen.
- Croesawu preswylwyr newydd i'r cynllun.
- Annog gweithgareddau cymdeithasol yn y cynllun, a helpu eu hyrwyddo.
- Helpu meithrin cysylltiadau â'r gymuned leol.
- Cydlynu'r cymorth sydd ei angen gan wasanaethau cymdeithasol, meddygon, ac ati.
- Bod yn gyfrifol am waith gweinyddu a diogelu'r cynllun.

Mae'n bwysig bod y preswylwyr, a'u perthnasau, yn deall rôl y Swyddog Tai Lloches yn llwyr.

Bydd y Swyddog Tai Lloches yn darparu cymorth am faterion tai, ond nid oes disgwyl iddo ddarparu gofal personol na helpu'r preswylwyr i wneud tasgau y dylen nhw allu eu gwneud drostyn nhw eu hunain neu â chymorth gan asiantaethau eraill – er enghraifft gofal personol, glanhau, golchi dillad, siopa, neu gasglu presgripsiynau neu bensiwn.

Pan fydd preswylydd newydd yn symud i mewn i'r cynllun tai lloches, bydd y Swyddog Tai Lloches yn cwblhau cynllun cymorth gyda'r preswylydd i bennu pa gymorth sydd ei angen o ran materion tai. Os bydd angen cymorth ychwanegol, bydd y Swyddog Tai Lloches yn atgyfeirio neu'n cyfeirio'r preswylydd er mwyn cael unrhyw gymorth pellach sydd ei angen.

Dyma pryd mae'r Swyddogion Tai Lloches ar ddyletswydd fel arfer:

| | |
|---|---|
| Llun–Iau | 8.45am-5.00pm |
| Gwener | 8.45am–4.30pm |

Maen nhw'n gweithio mewn o leiaf ddau gynllun bob dydd. I alluogi'r preswylwyr i wybod pryd byddan nhw ar gael yn y cynllun, mae'r amserlen ddyddiol i'w gweld ymlaen llaw ar ddrws swyddfa'r cynllun.

Yn ystod yr adegau pan nad yw'r Swyddog Tai Lloches ar y safle, mae gwasanaeth brys yn cael ei ddarparu gan y Ganolfan Monitro Larymau Ymateb (Llinell Gofal).

Mae Arweinwyr Timau Tai Lloches hefyd yn cynnig cyngor a chymorth i Swyddogion Tai Lloches a phreswylwyr yn y cynlluniau.

Mae modd i'r Tîm Tai Pobl Hŷn hefyd ddarparu cyngor ac atebion i ymholiadau cyffredinol – ffoniwch 01443 811431 yn ystod oriau swyddfa neu anfonwch e-bost i taipoblhyn@caerffili.gov.uk.

## CYDLYNYDD GWEITHGAREDDAU

Mae pob un o'n cynlluniau ni'n elwa ar gymorth Cydlynydd Gweithgareddau a fydd yn cwrdd â'r preswylwyr ac yn hyrwyddo ymgysylltiad, llesiant a gweithgareddau cymdeithasol yn y cynlluniau. Mae tripiau undydd, dosbarthiadau ymarfer corff, sesiynau ymwybyddiaeth, digwyddiadau elusennol ac achlysuron eraill i breswylwyr – megis tripiau'r clwb cinio – hefyd yn weithgareddau rheolaidd.

## GWASANAETH CYMORTH HYBLYG

Os ydych chi'n byw yn un o'n cynlluniau tai lloches, byddwch yn cael gwasanaeth cymorth hyblyg ar faterion tai trwy eich Swyddog Tai Lloches.

Yn gyffredinol, os nad ydych chi'n byw mewn cynllun tai lloches, bydd ein Tîm Cymorth Hyblyg yn darparu cymorth a chyngor ar faterion tai ar gyfer pobl 55 oed neu'n hŷn yn eu cartrefi nhw eu hunain i hybu byw'n annibynnol. Os ydych chi'n gymwys i gael cymorth hyblyg, bydd y Swyddog Cymorth Hyblyg yn cysylltu â chi ac yn trefnu cynllun cymorth gyda chi i ddiwallu'ch anghenion. Gallai cynllun cymorth gynnwys cymorth i reoli incwm, cyngor ar ddyledion, sicrhau budd-daliadau a materion tai eraill. Bydd hefyd yn amlygu'r camau sydd wedi'u cytuno ac am ba mor hir mae angen cymorth. Bydd y cynllun yn cael ei adolygu'n rheolaidd, a gall lefel y cymorth gael ei chynyddu neu ei lleihau wrth i'ch anghenion newid. Gallwch fanteisio ar gymorth drwy gael eich atgyfeirio drwy'r Tîm Cefnogi Pobl. I gael rhagor o wybodaeth a chyngor am y gwasanaeth yma, ffoniwch y Tîm Cefnogi Pobl ar 01443 864548 neu anfon e-bost i CefnogiPobl@caerffili.gov.uk, neu ffoniwch y Tîm Cymorth Hyblyg ar 01443 811425 neu anfon e-bost i CymorthHyblyg@caerffili.gov.uk.